# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Rhondda Cynon Taf

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Rhondda Cynon Taf i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Rhondda Cynon Taf wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Rhondda Cynon Taf wedi cyflawni 5 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 4.

Perfformiad cymysg braidd a adroddwyd gan Rhondda Cynon Taf am flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith, gan gael gwelliannau mewn rhai meysydd a ffigyrau sy'n dirywio mewn eraill. Fodd bynnag, mae'r datganiad blynyddol yn adfyfyrio'n dda ar y rhesymau dros y lefelau perfformiad amrywiol hyn, gan nodi sut yr eir i'r afael â'r materion dan sylw. Ymddengys fod nifer o ffactorau y tu allan i reolaeth uniongyrchol y gwasanaeth wedi cael dylanwad mawr ar ffigyrau defnydd 2017-18, ac felly gellir rhagweld peth gwelliant yn y dyfodol. Mae'r awdurdod yn parhau i fuddsoddi yn ei fannau gwasanaeth, wrth i gyfleuster newydd agor yn Rhydyfelin, cynlluniau ar y gweill i adleoli Llyfrgell Pontypridd, a datblygiad Canolfannau Cymunedol mewn dau leoliad arall. Ymhen amser daw manteision y buddsoddiad hirdymor hwn i'r amlwg.

- Cyflwynodd Rhondda Cynon Taf ddwy astudiaeth achos yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth yn ei gael. Mae'r holl fannau gwasanaeth yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol ac ar gyfer iechyd a lles.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu, gyda 98% o'r mynychwyr wedi cael cefnogaeth i gyflawni eu hamcanion.
- Ar y cyfan, mae ffigyrau yn ymwneud â defnydd wedi gostwng yn 2017-18, ond mae'r rhesymau dros hyn wedi'u deall yn dda, a gellir rhagweld peth gwelliant yn y dyfodol.
- Cafwyd ychydig o gynnydd yn y buddsoddiad yn y gyllideb defnyddiau, er bod y gwasanaeth yn dal i fod gryn dipyn i ffwrdd o gyflawni'r targedau a nodwyd, a chydnabyddir bod gwelliant pellach yn annhebygol yn yr hinsawdd ariannol bresennol.
- Mae cyfran y ceisiadau a gyflenwir o fewn 7 neu 15 diwrnod wedi gwella ychydig, ond maent yn dal i fod yn is na'r lefelau gofynnol.
- Mae lefelau staffio wedi cynyddu ers 2016-17, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff a datblygiad proffesiynol, gyda chyllid wedi'i glustnodi'n benodol i gefnogi staff i ennill cymwysterau trwy ddysgu o bell.
- Mae'r awdurdod yn parhau i fuddsoddi yn ei fannau gwasanaeth, gan agor llyfrgell newydd Rhydyfelin yn 2017-18, a chynlluniau ar y gweill ar gyfer datblygiadau pellach yn llyfrgelloedd Pontypridd, Glynrhedynog ac Aberpennar.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae'r awdurdod yn ymdrechu i gynnal ystod eang y gwasanaethau ac adnoddau, gan weithredu Gwasanaeth Llyfrgell Ysgol, Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol a Gwasanaeth Caeth i'r Cartref. Mae'r gwasanaeth yn aelod o gynllun benthyciadau rhwng llyfrgelloedd Books4U, ac roedd yn un o'r rhai cyntaf i weithredu'r system rheoli llyfrgell (LMS) ar gyfer Cymru gyfan. Ymgynghorir yn rheolaidd â defnyddwyr, gyda thri chyfarfod cyhoeddus bob blwyddyn, ac arolygon defnyddwyr ffurfiol o leiaf unwaith bob tair blynedd. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol hefyd i hyrwyddo'r gwasanaeth ac fel dull o gasglu adborth anffurfiol.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 5 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni 4 o'r dangosyddion.

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol: | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg | | Heb ei gyflawni |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | x | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x | |
| DA 11 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | Heb ei gyflawni |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | x | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | x | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | x | Heb ei gyflawni |

Mae rhywfaint o newid ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith, gyda'r targed ar gyfer cyfran y gyllideb deunyddiau sy'n cael ei wario ar eitemau Cymraeg bellach yn cael ei gyrraedd, a hawl graidd 11 wedi'i chyflawni'n llawn ar ôl sicrhau darpariaeth Wi-Fi ym mhob llyfrgell sefydlog.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Mae Rhondda Cynon Taf wedi dweud y bydd yn cynnal arolygon defnyddwyr yn ystod 2018-19.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | *amherthnasol* | | 73% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | *amherthnasol* | | 38% | 90% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 98% | *4/17* | 75% | 98% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Rhondda Cynon Taf ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Lleoliad Profiad Gwaith – unigolyn a oedd wedi bod ar leoliad profiad gwaith yn Llyfrgell Treorci yn y lle cyntaf, a hynny wedi gwella ei hyder, ei sgiliau darllen a lles, ac mae bellach yn wirfoddolwr rheolaidd i'r gwasanaeth.
- Grŵp Ysgrifennu Creadigol 'Scribblers' – grŵp ysgrifennu sy'n trefnu ei hun ac yn cwrdd bob wythnos yn llyfrgell Aberdâr. Mae'r llyfrgell yn darparu awyrgylch

hamddenol a chyfeillgar i'r cyfarfodydd, a'r adnoddau yno yn cynnig ysbrydoliaeth. Cynhyrchir antholeg bob dwy flynedd o waith awduron lleol y mae'r grŵp yn cyfrannu ato. Mae'r grŵp wedi gwella lles ei aelodau, gan roi cefnogaeth emosiynol a phersonol.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | *amherthnasol* | | 24% | 83% | 94% | *84%* |
| c) iechyd a lles | *amherthnasol* | | 33% | 65% | 95% | *59%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | *amherthnasol* | | 90% | 98% | 100% | *99%* |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | *amherthnasol* | | 88% | 91% | 98% | *94%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 93% | 99% | 100% | *99%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 74% | 86% | 94% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | *amherthnasol* | | 93% | 97% | 99% | *96%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | *amherthnasol* | | 8.5 | 9.1 | 9.2 | *x* |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 41 | *9/22* | 10 | 32 | 238 | *35* |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 93 | *19/22* | 15 | 199 | 473 | *98* |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 186 | *17/22* | 82 | 228 | 684 | *237* |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 3,355 | *16/22* | 2,501 | 4,047 | 7,014 | *3,385* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 243 | *22/22* | 243 | 866 | 2,211 | *534* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 204 | *3/22* | 100 | 154 | 229 | *77* |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen * | 45 | *16/22* | 4 | 68 | 663 | |
| DA 11 Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen^ | 8 | *17/22* | 5 | 9 | 14 | *8* |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 24% | *15/22* | 14% | 27% | 67% | *29%* |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 22 | *15/21* | 3 | 31 | 196 | *48* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 2,442 | *6/21* | 40 | 1,346 | 11,939 | *1,333* |

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £9,994 | *17/21* | £7,047 | £11,915 | £17,771 | *£9,249* |
| b) % ar staff | 68% | *7/21* | 44% | 63% | 75% | *75%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 15% | *7/21* | 4% | 13% | 25% | *15%* |
| % ar offer ac adeiladau | 4% | *11/21* | 0% | 4% | 20% | *0%* |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 14% | *14/21* | 0% | 18% | 37% | *10%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £203 | *11/20* | £0 | £338 | £17,432 | *£1,178* |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £2.20 | *5/21* | £1.24 | £1.82 | £2.41 | *£2.29* |
| DA 16 Oriau agor# | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.04% | *13/21* | 0.00% | 0.02% | 1.28% | *0.00%* |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 3.90% | *18/20* | 0.00% | 0.35% | 11.24% | *1.79%* |

** fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg*

*^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl*

*# Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).*

# 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

## 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Rhondda Cynon Taf eto wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr ond y bwriad yw eu cynnal yn 2018-19. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu cefnogaeth lawn ar gyfer datblygiad unigol, a rhoddir cefnogaeth dda ar gyfer iechyd a lles, gyda'r ddau darged yn hyn o beth wedi'u cyflawni. Croesawir y cynnydd yn nifer y mynychwyr yn sgil y cynnydd yn nifer y sesiynau hyfforddi ffurfiol a gynhaliwyd, gyda'r perfformiad uwchlaw lefel y canolrif, a 98% o'r mynychwyr wedi cael cefnogaeth i gyflawni eu hamcanion. Fodd bynnag, mae'r nifer sydd wedi cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol wedi gostwng ychydig, a'r perfformiad yn hyn o beth ymhlith yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.

## 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, gyda 13 o fannau gwasanaeth sefydlog ar agor 10+ awr yr wythnos. Yn gyffredinol, mae ffigyrau yn ymwneud â defnydd wedi gostwng islaw'r canolrifau ar gyfer Cymru, gyda gostyngiadau wedi'u cofnodi yn niferoedd ymwelwyr, mynychwyr mewn digwyddiadau a benthyciadau llyfrau. Priodolir hyn i newidiadau mewn oriau agor a thywydd garw yn ystod mis Mawrth, gan arwain at ostyngiad o 25% yn y ffigyrau ymwelwyr ar gyfer y mis hwnnw o'i gymharu â 2016-17. Nodir bod y ffigwr a adroddir ar gyfer benthyciadau llyfrau hefyd yn ymwneud â 10 mis yn unig, gan nad oes data ar gael yn ystod y trosglwyddo i LMS Cymru gyfan. Roedd colli data traffig ar y we yn ymwneud â rhan boblogaidd o'r wefan am hanner y flwyddyn wedi effeithio ar yr adrodd am rith-ymweliadau, a hwythau hefyd wedi gostwng yn sylweddol ers 2016-17. Mewn cyferbyniad gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y benthycwyr gweithredol ac aelodau llyfrgell a gofnodwyd – a hyn wedi'i briodoli i'r ffaith fod yr LMS Cymru gyfan yn fwy cywir.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Nodir cynnydd bach yn y gyllideb deunyddiau ar gyfer 2017-18, sef canlyniad un buddsoddiad mawr mewn stoc ar gyfer llyfrgell newydd Rhydyfelin, er bod y gwasanaeth yn dal i fod yn bell o gyflawni gofynion DA 9. Er bod y buddsoddiad mewn adnoddau i blant, a rhai Cymraeg, wedi'i gynnal yn 2017-18, eto gostyngiad a welir o gymharu'r perfformiad â chyfanswm y gyllideb a honno wedi cynyddu. O ganlyniad, mae Rhondda Cynon Taf wedi gostwng yn is na'r trothwy 4% ar gyfer buddsoddi mewn deunyddiau Cymraeg yn 2017-18, ac yn methu â chyflawni DA 10. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi codi ychydig, gyda chyfleusterau newydd yn llyfrgell Rhydyfelin, ond mae'r defnydd ar TGCh wedi gostwng, sef tuedd a welir ledled Cymru. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau wedi gwella, ond mae'n dal i fod yn is na'r lefelau a bennwyd. Dywedir mai'r prif ffactor yn hyn o beth yw'r nifer fawr o geisiadau am deitlau poblogaidd; mae'r gwasanaeth bellach yn llai rhagweithiol wrth wneud ceisiadau ac mae hyn wedi lleihau cyfanswm nifer y ceisiadau, ac mae dulliau eraill o reoli'r mater hefyd yn cael eu hystyried.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau'r staff cyffredinol wedi cynyddu wrth ychwanegu dwy swydd brentisiaeth, ac mae nifer y staff cymwysedig wedi eu cadw – er na chaiff yr un o'r ddau darged yn ymwneud â staff eu cyrraedd. Mae cyllid wedi'i glustnodi i gefnogi staff i ennill cymwysterau trwy ddysgu o bell, a chynyddu y mae'r gefnogaeth ar gyfer hyfforddiant / datblygiad proffesiynol. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i ehangu ei ddefnydd o wirfoddolwyr, gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr oriau gwirfoddol, er bod hynny bellach gan nifer llai o wirfoddolwyr hirdymor. Erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn llawn o ran nifer y gwirfoddolwyr y gall eu cefnogi.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig yn 2017-18, ond nodir bod hwn yn bennaf yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw. Mae cyllidebau'r gwasanaeth wedi cynnal ar yr un lefelau fel arall, heb unrhyw doriadau ychwanegol, er bod cyfanswm y gwariant fesul pen y boblogaeth yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol yn adlewyrchu gostyngiadau yn yr oriau agor a weithredwyd yn 2016-17 – gyda Rhondda Cynon Taf bellach yn un o bum gwasanaeth llyfrgell nad ydynt yn cyrraedd y targed. Mae model gwasanaeth clwstwr yn helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad i lyfrgell leol am 6 diwrnod o'r wythnos. Priodolir cynnydd yn nifer arosfannau'r llyfrgell deithiol a fethwyd i oed y cerbydau, ond mae dau gerbyd newydd bellach wedi'u prynu.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Rhondda Cynon Taf yn adrodd ar ei gyfraniad i strategaethau trawsbynciol Llywodraeth Cymru: Ffyniannus a Diogel, gan hwyluso datblygu sgiliau, darparu mynediad di-dâl i gyfleusterau TG, a chefnogi gwirfoddoli; Iach ac Egnïol, trwy gefnogaeth i gynlluniau bibliotherapi; Uchelgais a Dysgu, drwy gefnogi hyrwyddiadau a mentrau darllen; ac Unedig a Chysylltiedig, drwy gefnogi datblygu sgiliau digidol.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod

y flwyddyn ganlynol, mae Rhondda Cynon Taf yn sôn am yr her barhaus o ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y gymuned, ar yr un pryd â delio â newid i wasanaethau a chyllidebau cyfyngedig. Mae'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth yn nodi blaenoriaethau allweddol, yn enwedig o ran trawsnewid gwasanaethau a datblygu staff, er mwyn sicrhau cynaladwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r camau gweithredu arfaethedig yn cynnwys datblygu Canolfannau Cymunedol, gan weithio gyda phartneriaid lleol i wella cyfleusterau a gwasanaethau i'r gymuned, adleoli Llyfrgell Pontypridd, mwy o ddarpariaeth ar gyfer mynediad digidol, a chyflwyno ciosgau hunanwasanaeth.

## 6 Casgliad

Perfformiad cymysg braidd a adroddwyd gan Rhondda Cynon Taf am flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith, gan gael gwelliannau mewn rhai meysydd a ffigyrau sy'n dirywio mewn eraill. Fodd bynnag, mae'r datganiad blynyddol yn adfyfyrio'n dda ar y rhesymau dros y lefelau perfformiad amrywiol hyn, gan nodi sut yr eir i'r afael â'r materion dan sylw. Ymddengys fod nifer o ffactorau y tu allan i reolaeth uniongyrchol y gwasanaeth wedi cael dylanwad mawr ar ffigyrau defnydd 2017-18, ac felly gellir rhagweld peth gwelliant yn y dyfodol. Mae'r awdurdod yn parhau i fuddsoddi yn ei fannau gwasanaeth, wrth i gyfleuster newydd agor yn Rhydyfelin, cynlluniau ar y gweill i adleoli Llyfrgell Pontypridd, a datblygiad Canolfannau Cymunedol mewn dau leoliad arall. Ymhen amser daw manteision y buddsoddiad hirdymor hwn i'r amlwg